OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 1493

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2012

**Tatws sy'n tarddu o'r Aifft: ffioedd**

**6.**—(1) Pan fo arolygydd yn cymryd sampl o datws sy'n tarddu o'r Aifft, er mwyn canfod, at ddibenion paragraff 5 o'r Atodiad i'r Penderfyniad, a yw'r tatws hynny wedi eu heintio â Ralstonia solanacearum (Smith) Yabuuchi et al., rhaid i'r mewnforiwr dalu i Weinidogion Cymru ffi o £87.80 mewn perthynas â phob lot y cymerir sampl ohoni.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y Penderfyniad" ("*the Decision*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/787/EU sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i weithredu mesurau argyfwng dros dro yn erbyn lledaenu Ralstonia solanacearum (Smith) Yabuuchi et al., mewn cysylltiad â'r Aifft(**1**).

(**1**) OJ Rhif L 319, 2.12.2011, t.112.